

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

41/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2023

Llais a Rheolaeth

Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y
Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-343-0

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Llais a Rheolaeth

Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mark Llewellyn,¹ Roiyah Saltus² a Wahida Kent²

Llewellyn, M., Saltus, R. and Kent, W. (2023). Llais a Rheolaeth – Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 41/2023. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/llais-rheolaeth-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-y-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>.

Daeth y tîm ymchwil o: Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Fetropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor.



Cardiff
Metropolitan
University



Mae'r Adroddiad Terfynol y mae'r ddogfen hon yn berthnasol iddo i'w weld yma: <https://www.gov.wales/final-report-evaluation-social-services-and-well-being-wales-act-2014>.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn a nid, o angenrheidrwydd, safbwyntiau Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adran Integreiddio
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

¹ [Welsh Institute for Health and Social Care](#), Prifysgol De Cymru: [WIHSC Staff | University of South Wales](#)

² Ysgol Gwyddorau Gofal, Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru: [Roiyah Saltus - Faculty of Life Sciences and Education, University of South Wales](#); [Wahida Kent - Faculty of Life Sciences and Education, University of South Wales](#)

Tabl y Cynnwys

Rhestr Termau	2
1. Rhagarweiniad	4
2. Canfyddiadau – arolwg o lenyddiaeth	8
3. Canfyddiadau – tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr	12
4. Canfyddiadau – sylwadau gan y gweithlu	15
5. Canfyddiadau – ymchwil gyda Chynorthwyr Personol	17
6. Crynodeb.....	19
Rhestr cyfeiriadau	21

Rhestr o dablau

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf a phum parth yr astudiaeth	5
Tabl 2.1: Galluogwyr a rhwystrau ar gyfer 'llais a rheolaeth' yn deillio o'r llenyddiaeth	11

Rhestr termau

Acronym/geiriau allweddol	Diffiniad
ALI	Awdurdodau Lleol
Asesiadau	Cynhelir asesiadau gydag unigolion i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar yr unigolyn a cheisio diwallu'r anghenion hynny, a gofalwyr i nodi'r cymorth sydd ei angen arny'n nhw. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn, plentyn, neu ofalwr lle gallai fod ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth.
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Nod y Ddeddf ydy sicrhau bod pobl yn gallu gofyn am yr help sydd ei angen arny'n nhw pan fydd ei angen arny'n nhw i atal eu sefyllfa eu hunain rhag gwaethygu, a bod gofalwyr yn gallu cael cymorth i'w cynorthwyo yn eu rolau gofalu a chynnal eu llesiant eu hunain.
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
Cyd-Gynhyrchu	Nod y Ddeddf ydy ymglymu pobl yn fwy yng nghynllun a darpariaeth eu gofal. Mae'n golygu bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i wneud eu gofal y gorau all fod.
Cynorthwywyr Personol (CP/PA's)	Mae cynorthwydd personol yn darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel y gallan nhw gyflawni canlyniadau llesiant personol yn y man lle mae'r unigolyn yn byw.
Eiriolaeth / eiriolwr	Gall gwasanaethau eiriolaeth helpu pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau, archwilio dewisiadau ac opsiynau, a mynegi eu dymuniadau a'u hanghenion.
Gweithio Aml-Asiantaethol	Nod y Ddeddf ydy atgyfnerthu cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael yn y cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl.
IMPACT	Gwerthusiad annibynnol o Weithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Llais a Rheolaeth	Egwyddor y Ddeddf ydy Llais a Rheolaeth sy'n ceisio gosod unigolion a'u hanghenion ynghanol eu gofal a'u cymorth, a defnyddio eu 'llais a'u rheolaeth' dros y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.
Llesiant	Nod y Ddeddf ydy sicrhau bod llesiant ym mhob rhan o fywyd pobl. Mae llesiant yn fwy na chadw'n iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel a hapus, cael dewis a derbyn y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned

Acronym/geiriau allweddol	Diffiniad
	gref, cael ffrindiau a pherthnasau sy'n dda i chi a chael hobiau, gwaith neu ddysgu pethau.
Nam ar y synhwyrâu	Mae nam ar y synhwyrâu yn derm cyffredinol i ddisgrifio colli'r synhwyrâu pellter h.y. y golwg a'r clyw. Mae pedwar math o nam ar y synhwyrâu: clyw, gweledol, byddar-ddall, byddar sy'n ddefnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain (BSL).
P-FE	Gwerthuso Wedi'i Ffocysu ar Egwyddorion
SERG	Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth
Sgwrs am 'Yr Hyn sy'n Bwysig	'Mae sgwrsiau ar 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn fodd i weithwyr proffesiynol ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant cyfredol a'r hyn y gellir ei wneud i'w cynorthwyo. Mae'n sgwrs gyfartal ac yn bwysig i sicrhau bod llais yr unigolyn neu'r gofalwr yn cael ei glywed a'r 'hyn sy'n bwysig' iddyn nhw.
Taliadau Uniongyrchol, (TU/DP)	Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion a/neu eu gofalwyr, a aseswyd bod ganddyn nhw anghenion gofal cymwys, i chwilio am ofal sydd wedi'i deilwra i'w anghenion yn hytrach na defnyddio darparwyr statudol sydd eisoes yn bodoli. Eu bwriad ydy cynnig mwy o hyblygrwydd, annibyniaeth a dewis a rheolaeth dros y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn.
WIHSC	Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, rhan o Brifysgol De Cymru.

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i lunio gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf').
- 1.2 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol – astudiaeth [IMPACT study](#)³ – wedi bod ar waith ers Tachwedd 2018 dan arweiniad yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru (USW) ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe.
- 1.3 Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Bangor a Chanolfan PRIME Cymru gyda chymorth the [Study Expert Reference Group](#) (SERG)⁴ (Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth) gyda chefnogaeth 3 o cyd-gadeiryddion sy'n ddinasyddion.

Cyd-destun

- 1.4 Mae'r Ddeddf yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' ym mholisi, rheoleiddio a threfniadau darparu gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Mae iddi 11 rhan ac mae wedi'i harwain gan bum egwyddor ac yn cyd-fynd â hyn mae strwythurau, prosesau a chyfres o Godau Ymarfer.
- 1.5 Mae'n wirioneddol bwysig nodi natur yr egwyddorion a sut y cânt eu hamlygu ym mhrofiad defnyddwyr y gwasanaethau, y gofalmwyr a'r gweithlu. Dydy'r pum egwyddor ddim yn bodoli ar eu pen eu hunain – maen nhw'n cyd-berthyn ac yn rhyng-gysylltiedig. Mae gorgyffwrdd rhwng athroniaeth sylfaenol pob un, ac felly, ym mhrofiadau pobl, mae'n anodd gwahanu un egwyddor oddi wrth y llall weithiau.
- 1.6 Er enghraifft, mae bron yn amhosibl dirnad sut y gall cyd-gynhyrchu fel egwyddor weithredu heb sicrhau yn gyntaf fod gan bobl lais a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth. Yn yr un modd, mae atal yn aml yn rhagdybio y bydd 'cynnig' aml-asiantaeth yn ei le i bobl er mwyn atal argyfwng. Ac wrth gwrs, nod pob un o'r egwyddorion, yn y pen draw, ydy sicrhau gwell canlyniadau llesiant i bobl, sy'n egwyddor ynddi ei hun.

³ Ffilm ddwyieithog i gyflwyno strwythur yr astudiaeth, sydd ar gael yma: [Ffilm gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube](#)

⁴ Am ragor o wybodaeth am SERG, ewch ar: [Study Expert Reference Group | Prifysgol De Cymru \(USW\)](#)

- 1.7 Fel y cyfryw, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, er ei fod yn ymwneud â llais a rheolaeth yn bennaf, mae adegau isod pan gyfeirir at dystiolaeth ynghylch egwyddorion eraill. Mae hyn yn adlewyrchu natur ryng-gysylltiedig yr egwyddorion a nodwyd uchod. Bydd dystiolaeth o'r fath yn cael ei chyfosod yn yr Adroddiad Terfynol sy'n tynnu deunydd o'r adroddiad hwn a'r adroddiadau a gynhyrchwyd ar yr egwyddorion eraill.
- 1.8 Ochr yn ochr â'r pum egwyddor, rydyn ni wedi nodi pum maes lle mae egwyddorion y Ddeddf yn 'cyfarfod' â'r bobl neu'r sefydliadau y dylai'r Ddeddf fod yn effeithio arny'n nhw – unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr ac aelodau o'r teulu, y cymunedau y maen nhw yn byw ynddyn nhw, y gweithlu sy'n eu cefnogi, a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau i'w cyflawni fel yr amlinellir yn y Ddeddf a'r Codau Ymarfer cysylltiedig.

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum parth yr astudiaeth

Egwyddorion	Parthau
Llais a rheolaeth	Dinasyddion
Llesiant	Teuluoedd a Gofalwyr
Cyd-gynhyrchu	Cymunedau
Gwaith aml-asiantaeth	Gweithlu
Atal ac ymyrraeth gynnar	Sefydliadau

- 1.9 Mae'r astudiaeth werthuso yn cynrychioli asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi effeithio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr. Er mwyn gwireddu hyn, rydyn ni'n defnyddio'r dull a arddelwyd gan Michael Patton (2018) yn ei fframwaith 'Principles-Focused Evaluation' (P-FE) ac rydyn ni'n ei ddefnyddio fel sail ddamcaniaethol a chysyniadol i'n hastudiaeth.⁵ Mae tri chwestiwn allweddol y mae Patton yn ein hannog i'w hystyried fel rhan o unrhyw 'P-FE' (2018, tud.27-29):

1. I ba raddau y mae egwyddorion ystyrllon a gwerthfawr wedi'u mynegi?
2. Os ydy egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y glynir wrthyn nhw'n ymarferol?
3. Os cedwir at hyn, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau a ddymunir?

- 1.10 Mae cysylltiad clir rhwng cwestiynau Patton, y meysydd i'w hymchwilio yn ein hastudiaeth, a'r pum egwyddor sy'n sail i'r Ddeddf. Ystyrir y cysylltiadau hyn yn

⁵ I ganfod mwy am P-FE gweler Patton, M. Q. (2018). I ganfod sut mae P-FE yn berthnasol i'r astudiaeth hon ewch i Bennod 2 (Llewellyn et al., 2022).

fanwl fesul egwyddor mewn cyfres o adroddiadau, a dyma un ohonyn nhw. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr egwyddor o lais a rheolaeth, ac mae wedi'i ysgrifennu gan is-dîm o fewn grŵp astudio gwerthuso IMPACT sydd â diddordeb arbennig ac arbenigedd yn y pwnc hwn.

Diben, dull a chwmpas

- 1.11 Mae'r adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar yr egwyddor o lais a rheolaeth, yn tynnu deunydd o nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd eisoes ar draws yr astudiaeth er mwyn canolbwyntio ar y maes hwn:
- mewnwelediadau o'r adolygiad llenyddiaeth a gyhoeddwyd;⁶
 - tystiolaeth o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn enwedig gan bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a'r rhai sydd â nam ar y synhwyrâu;^{7,8}
 - safbwyntiau'r gweithlu ar sut mae'r egwyddor o lais a rheolaeth yn gweithredu ar draws y gwasanaethau cymdeithasol;⁹ a hefyd
 - tystiolaeth o astudiaeth ymchwil ar brofiadau Cynorthwyr Personol (PA's) a gyflogir i gefnogi pobl gyda Thaliadau Uniongyrchol.¹⁰
- 1.12 Fel y nodwyd uchod, bydd yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar lais a rheolaeth, ond efallai y bydd cyfeiriad at y ffyrdd y mae rhai o egwyddorion eraill y Ddeddf (cyd-gynhyrchu, atal ac ymyrraeth gynnar, gweithio aml-asiantaethol a llesiant) yn cydblethu gyda llais a rheolaeth yn y dystiolaeth a ystyrir yma.
- 1.13 Gellir darllen y fethodoleg a'r dadansoddiad ar gyfer yr amrywiol elfennau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn (adolygiad o lenyddiaeth, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, safbwyntiau'r gweithlu, a thystiolaeth gan [dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol a Chynorthwyr Personol](#)) yn fanwl ym mhob un o'r adroddiadau cyhoeddedig.¹¹ Mae'r adroddiadau gwahanol yn unedig o ran mabwysiadu dull thematig o ddadansoddi yn unol â chwe cham Braun a Clarke (2006).
- 1.14 Rhychwant yr adroddiad hwn ydy casglu'r dystiolaeth am lais a rheolaeth ynghyd, a thrwy hynny cynnig canolbwynt i'r egwyddor hon ar gyfer y rhai sydd â diddordeb.

⁶ Llewellyn et al. (2020b)

⁷ Llewellyn et al. (2022)

⁸ Llewellyn (2022)

⁹ Llewellyn et al. (2021)

¹⁰ Wallace et al. (2022)

¹¹ Llewellyn et al. (2020b), Llewellyn et al. (2022), Llewellyn (2022), Wallace et al (2022) op. cit.

Rydyn ni'n casglu'r cyfryw themâu at ei gilydd yng nghrynodeb y ddogfen hon (Pennod 6) a chynnig argymhellion penodol i faes llais a rheolaeth. Rhaid ystyried y rhain yng nghyd-destun y canfyddiadau cyffredinol, y casgliadau a'r argymhellion a geir yn yr Adroddiad Terfynol (Llewellyn et al., 2023).¹²

¹² Mae'n bwysig nodi hefyd fod yr adroddiad hwn ar lais a rheolaeth ychydig yn wahanol o'i gymharu â'r lleill yn y gyfres hon o ystyried ei fod yn tynnu o ddeunydd a gyhoeddwyd yn flaenorol yn unig, tra bod yr adroddiadau ar yr egwyddorion eraill yn adrodd (yn rhannol) ar dystiolaeth newydd ac ychwanegol. Felly mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r dystiolaeth a'r canfyddiadau a gasglwyd drwy gydol yr astudiaeth.

2. Canfyddiadau – adolygiad o'r llenyddiaeth ¹³

Diffiniadau

- 2.1 O ran y cysyniad o 'lais' a 'rheolaeth', dydy'r Ddeddf ddim yn darparu unrhyw ddiffiniad ffurfiol. Mae darnau o ddiffiniadau o fewn gwahanol Rannau o'r Ddeddf, a'r Codau Ymarfer. Er enghraifft, mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn darparu nifer o ddatganiadau allweddol sy'n ddirprwyon defnyddiol i'w hystyried yn lle diffiniadau ffurfiol, ac yn ogystal, mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 yn defnyddio'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i nodi agweddau allweddol ar yr hyn mae'n ei olygu i ddefnyddio 'llais' a 'rheolaeth':
- Yr hawl i gael eich clywed fel unigolyn...i gael rheolaeth dros eu bywydau bob dydd
 - Mae fy llais yn cael ei glywed a'i wrando
 - Rwy'n siarad dros fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun sy'n gallu ei wneud ar fy rhan.
- 2.2 Mae ein diffiniad gweithredol o lais a rheolaeth yn seiliedig felly ar gael llais rhywun i gael ei glywed a'i wrando fel hawl sylfaenol, cael rheolaeth dros fywyd bob dydd trwy gyfrannu at benderfyniadau ac, os oes angen, derbyn cefnogaeth i gael eich clywed.
- 2.3 Ar y cyfan, dydy'r llenyddiaeth gyhoeddedig ddim yn rhoi diffiniadau clir o'r termau 'llais' a 'rheolaeth' (Vamstad, 2016; Callaghan et al. 2014). Yr hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddatgelu ydy'r ffaith bod termau fel llais a rheolaeth yn cael eu diffinio mewn amrywiol ffyrdd, gyda thermau dirprwyol yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol gan arwain at orgyffwrdd cysyniadol.
- 2.4 Er nad ydy'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth sydd ar gael ddim yn defnyddio nac yn diffinio'r termau 'llais' neu 'reolaeth' yn benodol, daeth nifer o gysyniadau tebyg neu gysylltiedig i'r amlwg yn y llenyddiaeth, er enghraifft, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Washburn a Grossman, 2017), grymuso (Keyes et al., 2015), cyfranogiad (Havlicek et al., 2018), hunanbenderfyniad (Eades, 2018), personoli (Adran Iechyd, 2015; Glenndinning et al., 2015) a gwneud penderfyniadau ar y cyd (Brogan et al., 2018).

Categoriâu llenyddiaeth

- 2.5 Fe wnaethom strwythuro'r adolygiad llenyddiaeth ar lais a rheolaeth o gwmpas pedwar prif gategori a ddaeth i'r amlwg ar ôl ein dadansoddiad o'r dystiolaeth. Mae'r rhain yn adlewyrchu nifer o'r parthau ar gyfer yr astudiaeth a nodwyd gennym (gweler 1.8 uchod).

¹³ Llewellyn et al. (2020a)

Unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol

- 2.6 Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn archwilio sut mae cymhellion i gynyddu llais a rheolaeth yn amlygu ac yn effeithio ar fywydau unigolion, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cefnogaeth a darpariaeth gofal. Roedd y canfyddiadau'n cwmpasu amrywiaeth o grwpiau poblogaeth, er enghraifft pobl hŷn â mwy/llai o lais a rheolaeth, a phobl ag anableddau deallusol (Callaghan et al., 2014; Vamstad, 2016; Darby et al., 2017; Dunér et al., 2019)
- 2.7 Nodwyd materion fel ansawdd bywyd (Reindl et al., 2016; Morris et al., 2017) a hunan-eiriolaeth (Tideman a Svensson, 2015; Hamilton et al., 2017) yn yr adolygiad hefyd. Roedd y llenyddiaeth yn nodi cymhlethdod gweithredu egwyddorion llais a rheolaeth ar draws gwahanol leoliadau gofal a chyda gwahanol grwpiau demograffig; yr heriau o ran rhannu rheolaeth ar draws sefydliadau ac unigolion mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol; a phwysigrwydd eiriolaeth a hunan-eiriolaeth wrth greu synnwyr o lais a rheolaeth i unigolion.
- 2.8 Mae tystiolaeth o'r papurau hyn yn awgrymu y gall teimladau o allu mynegi safbwynt (a chael gwrandawriad) am y gofal a'r cymorth y mae pobl yn ei dderbyn, effeithio'n gadarnhaol ar ymdeimlad o lesiant hunan-gofnodedig, boed hynny oherwydd bod eiriolaeth yn cael ei darparu, neu fod ganddyn nhw reolaeth bersonol dros y pethau bach mewn bywyd – fel yr hyn y maen nhw am ei wisgo, neu pa bryd byddan nhw'n bwyta eu pryd bwyd.
- Gofalwyr*
- 2.9 Roedd y llenyddiaeth yn canolbwyntio ar sut mae llais a rheolaeth yn cael ei wella neu ei leihau i ofalwyr (Rand a Malley, 2014; Glendinning et al., 2015; McNeilly et al., 2018; Watts a Cavaye, 2018). O ystyried y ffocws ar bwysigrwydd gwella llais a rheolaeth yn y Ddeddf, heriau offer a phrosesau asesu (Seddon a Robinson, 2015; Ewing et al., 2016), ac adnoddau a chyllidebau (Glendinning et al., 2015; Larkin, 2015; Galiatsatos et al., 2017; Singleton a Fry, 2019), wedi'u gosod yn y llenyddiaeth fel ffactorau allweddol sy'n llywio sut y gellir gwella neu gyfyngu ar lais a rheolaeth gofalwyr.
- 2.10 Y negeseuon allweddol o'r adran hon o'r adolygiad llenyddiaeth ydy'r angen i ddod o hyd i'r cydbwysedd priodol rhwng syniadau am ddinasyddiaeth a chael mwy o reolaeth ariannol; yr heriau o gael rheolaeth dros gyllid wrth roi llais a rheolaeth i ofalwyr ac unigolion sy'n derbyn gofal; a phwysigrwydd arfer gofal cymdeithasol o safon wrth rymuso gofalwyr i gael synnwyr o lais a rheolaeth.

Y Gweithlu

- 2.11 Edrychodd yr adolygiad ar lais a rheolaeth a'r gweithlu ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol. Archwiliodd bolisi ac arfer wrth gefnogi staff i feithrin grymuso a rhannu rheolaeth a gwneud penderfyniadau (Gridely et al., 2014; Keyes et al., 2015; McCarter et al., 2016; Brogan, 2018), a'r rhwystrau a'r galluogwyr wrth ddatblygu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Gridley et al., 2014; Hanga et al., 2017; Washburn a Grossman, 2017; Dunér et al., 2019) ac eiriolaeth (Eades, 2018).
- 2.12 Y negeseuon allweddol a ddaeth o'r adran hon ydy pwysigrwydd dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth feithrin egwyddorion llais a rheolaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau; yr heriau sy'n gynhenid wrth weithredu polisi ar sail egwyddorion llais a rheolaeth; a phwysigrwydd y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r defnyddiwr gwasanaeth o ran creu synnwyr da o lais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Sefydliadau

- 2.13 Roedd adran olaf yr adolygiad yn trafod rôl sefydliadau gofal ac iechyd mewn llais a rheolaeth. Roedd y llenyddiaeth yn canolbwyntio ar un maes allweddol, sef asesu, a'r ffyrdd o asesu anghenion gofal (Darby et al., 2017; Hanga et al., 2017), hunanasesu (Keyes et al., 2015), a dulliau o fynd ati o ran y broses asesu (Sgiliau Gofal, 2018), egwyddorion ac arferion llais effaith a rheolaeth ar gyfer sefydliadau gofal (Seddon a Robinson, 2015; Tucker et al., 2018).
- 2.14 Y canfyddiadau allweddol oedd bod heriau o ran sefydlu egwyddorion llais a rheolaeth mewn asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol; ac y gall ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dulliau sgwrsio fod yn llwyfan da i roi egwyddorion llais a rheolaeth ar waith ym maes gofal cymdeithasol.

Galluogwyr a Rhwystrau

- 2.15 Yn gyffredinol, amlygodd yr adolygiad o lenyddiaeth llais a rheolaeth nifer o rwystrau a galluogwyr (gweler Tabl 2.1 ar y dudalen nesaf) a all rwystro neu gynorthwyo unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth i gael mwy o fewnbwn i'w gofal (llais) a mwy o ddylanwad dros yr hyn sy'n digwydd (rheolaeth).

Tabl 2.1: Galluogwyr a rhwystrau ar gyfer 'llais a rheolaeth' yn deillio o'r llenyddiaeth

Rhwysterau i lais a rheolaeth	Galluogwyr llais a rheolaeth
Diffyg diffiniad clir mewn llenyddiaeth o ran ystyr llais a rheolaeth	Ymgymryd â hunan-eiriolaeth a chael mynediad at gymorth a gwasanaethau eiriolaeth
Cymhlethdod cymhwysio egwyddorion llais a rheolaeth mewn gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol	Ymarfer gofal cymdeithasol o safon wrth roi synnwyr o lais a rheolaeth
Anallu ac amharodrwydd i rannu rheolaeth rhwng y sefydliad a defnyddiwr gwasanaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol	Dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel sgysiau 'Yr Hyn sy'n Bwysig'
Amrywiad di-alw-amdano wrth weithredu egwyddorion llais a rheolaeth gyda gwahanol grwpiau defnyddwyr gwasanaeth, e.e. pobl hŷn â dementia, neu blant ifanc	Perthnasoedd dibynadwy rhwng ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth
Egwyddorion llais a rheolaeth yn absennol o asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol	Dulliau sgwrsio o fynd ati o ran ymarfer gofal cymdeithasol
Mathau datganoledig o daliadau (e.e. cyllidebau personol) yn rhoi llais a rheolaeth i unigolion	

3. Canfyddiadau – tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- 3.1 Mae'r ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn profi llais a rheolaeth yn amrywio'n sylweddol. Darparwyd profiadau a disgwyliadau'r boblogaeth ehangach o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr fel rhan o'r adroddiad 'Disgwyliadau a Phrofiadau' - ['Expectations and Experiences'](#).¹⁴ Roedd yn cyflwyno tystiolaeth a oedd yn dangos bod profiadau pobl o lais a rheolaeth yn symud i gyfeiriad nodau'r Ddeddf, ond mae gallu gwir arfer llais a rheolaeth yn parhau i fod yn waith, i raddau helaeth, sy'n parhau i fynd rhagddo.
- 3.2 Fodd bynnag, mae grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n fwy difreintiedig nag eraill pan ddaw hi'n fater o gael gwrandawriad. Yn yr adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio'n benodol ar lais a rheolaeth, rydyn ni'n darparu safbwyntiau gan ddau grŵp o'r fath: pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a'u gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n dod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, a phobl sydd â nam ar eu synhwyrau. Mae eu safbwyntiau'n rhoi mewnwelediad a dealltwriaeth arbennig o werthfawr i'r materion yr oedden nhw'n eu hwynebu ynghylch llais a rheolaeth wrth gael mynediad at ofal a chymorth a derbyn gofal a chymorth. Mae'r safbwyntiau hyn yn rhoi mewnwelediadau pwysig o ran lle y gallai'r system gael ei herio fwyaf o ran gallu ymateb i bobl mewn dull sy'n ddiwylliannol sensitif a phriodol. Roedd hefyd yn gyfle i'r ddau grŵp hyn fynegi eu lleisiau a chael eu clywed.
- Dull o fynd ati**
- 3.3 Buom yn gweithio'n agos gydag EYST Cymru (Tîm Cymorth Ieuenctid o Leiafrifoedd Ethnig) i gefnogi'r gwaith yn y gwerthusiad hwn gyda phobl hŷn sy'n Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig a gofalwyr pobl hŷn.¹⁵
- 3.4 Yn yr un modd, daeth Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCDP) â dau grŵp ffocws ynghyd, a oedd yn cynnwys 10 aelod o'r WCDP, pedwar ohonyn nhw â nam ar y clyw, a chwech ohonyn nhw'n fyddar. Defnyddiwyd canllaw pwnc a ddatblygwyd gan dîm yr astudiaeth a bu cyfieithydd arwyddo ar y pryd, drwy Iaith Arwyddion Prydain (BSL), yn cyfleu'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr ymchwilydd i gyfranogwyr byddar ac yna'n cyfieithu'r ymatebion unigol yn ôl i fod yn rhai llafar.
- 3.5 Wrth gyflwyno'r canfyddiadau, rydyn ni'n cydnabod mai dim ond adlewyrchu safbwynt yr unigolion y clywsom ni ganddyn nhw yn unig, y mae'r rhain. Dydy hi ddim yn bosibl nac yn synhwyrol i ddod i gasgliadau y tu hwnt i'r hyn a gyfiawnheir gan y sampl bwrpasol hon ac sy'n seiliedig ar y profiadau hyn a'r safbwyntiau a

¹⁴ Llewellyn et al., 2022.

¹⁵ Ceir mwy o wybodaeth am y grŵp ffocws hwn, yn yr adroddiad llawn, ar: [full report of findings](#).

fynegir. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod dilysrwydd y safbwyntiau a roddwyd. Ceisiwyd tystiolaeth ar brofiadau gofal a chymorth gan yr hysbyswyr allweddol hyn a all, o'u dwyn ynghyd, amlygu patrymau nodweddion allweddol. (Patton, 2015).¹⁶

- 3.6 Mae hefyd yn bwysig nodi bod y data wedi'i gasglu yn ystod pandemig COVID-19, ym mis Medi 2021.

Materion a themâu allweddol – Pobl hŷn a gofalwyr sy'n Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig

- 3.7 Cafwyd nifer o fyfyrddodau pwerus a heriol iawn ar brofiadau pobl am gael llais a rheolaeth o fewn y system gofal cymdeithasol. Mynegwyd amrywiaeth o faterion y gallai unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a gofalwr fod wedi'u profi mewn sawl ffordd - fel peidio â theimlo eu bod yn cael eu clywed neu beidio cael llais. Roedd pethau cyffredin hefyd yn bodoli yn y safbwyntiau a fynegwyd am bwysau o fewn y system yn arwain at heriau ynghylch y diffyg ymatebion amserol.
- 3.8 Fodd bynnag, roedd profiad y bobl hŷn sy'n Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig y buom ni'n siarad â nhw yn broblem arbennig. Er gwaethaf ceisio cyfathrebu â'r 'system', bu'r cyfranogwyr yn myfyrio ar brofiadau cythryblus roedden nhw wedi gael a barodd iddyn nhw gwestiynu rhai o'r tybiaethau a oedd yn cael eu gwneud amdany'n nhw, eu hethnigrwydd, a'u cefndir diwylliannol a oedd, yn eu barn nhw, yn amhriodol ac yn hiliol.

Materion a themâu allweddol – pobl â nam ar y synhwyrau

- 3.9 Yn yr un modd, daeth heriau allweddol yn ymwneud â diffyg llais a rheolaeth i'r amlwg o brofiadau gofal a chymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â nam ar eu synhwyrau.
- 3.10 Wrth wraidd y profiadau hyn, roedd p'un a oedd gwasanaethau'n cydnabod ac yn arfer eu dyletswydd o dan y Ddeddf i ddarparu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sydd â nam ar y synhwyrau wrth gael mynediad at ddarpariaeth.
- 3.11 Roedd pedwar mater yn benodol yn dod i'r amlwg o'u tystiolaeth:
- Yn hollbwysig, teimlai pobl â nam ar y synhwyrau mai cyfyngedig iawn oedd eu dulliau o sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Doedd ganddyn nhw ddim mo'r mecanweithiau cyson i gefnogi cyfathrebu ac yn aml doedden nhw ddim yn gallu mynegi eu barn, ac roedd hyn yn amharu'n sylweddol ar eu llais, eu rheolaeth a'u

¹⁶ Patton, M. Q. (2015). *Qualitative Evaluation and Research Methods*. Thousand Oaks, CA: Sage.

hasiantaeth. Roedd yna ymdeimlad o anghydraddoldeb o gymharu â'r rhai heb nam ar eu synhwyr, ac roedd diffyg gweithiwr cymdeithasol ymroddedig i eirioli ar eu rhan yn cael ei ystyried yn rhwystr sylweddol i gael llais a rheolaeth.

- Fe wnaeth pandemig COVID-19 ,a'r cyfyngiadau clo cysylltiedig, ddwysáu rhai o'r heriau cyfathrebu a rhai rhannu gwybodaeth y cyfeiriwyd atyn nhw yn y thema gyntaf, ac roedd hyn yn ei dro yn atal cyfranogwyr rhag cael llais a rheolaeth.
- Ystyriwyd bod rôl a chefnogaeth darparwyr arbenigol yn y trydydd sector yn ganolog i sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ogystal â chymorth ac arweiniad ymarferol, cynigiodd darparwyr o'r trydydd sector gyfleoedd i gysylltu ag eraill ac i ddysgu sgiliau newydd. Serch hynny, roedd cyllido tymor byr yn golygu ansicrwydd ynghylch hirhoedledd y darparwyr hynny ac a fydden nhw'n gallu cynnig parhad yn y gofal.
- Bu'r cyfranogwyr yn ystyried yr amrywiadau daearyddol (o fewn Cymru a rhwng Cymru a Lloegr) o ran mynediad at offer, gwybodaeth, a gwasanaethau cymorth, i'w galluogi i deimlo bod ganddyn nhw ymdeimlad o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth.

4. Canfyddiadau – barn y gweithlu

4.1 Gan adeiladu ar y dystiolaeth benodol gan ddefnyddwyr gwasanaeth uchod, ac a dynnwyd o'r adroddiad *Gwerthuso Proses*,¹⁷ mae'r dyfyniadau a ganlyn yn rhoi mewnwelediad gan y gweithlu ar y ffyrdd y mae'r egwyddor o lais a rheolaeth yn gweithredu (neu ddim yn gweithredu) o ran gwaith o ddydd i ddydd gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae'r bennod fer hon yn rhoi cipolwg ar y mathau o faterion a gododd o'r trafodaethau gyda'r gweithlu, i'w hystyried ochr yn ochr â safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Amrywiadau o ran ymarfer llais a rheolaeth

4.2 Awgrymodd y gweithlu y gallai'r graddau y mae pobl yn gallu arfer llais a rheolaeth amrywio yn ôl eu cyfnod o ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Hwyrach bod pedwar cam gwahanol o gyfranogiad:

- Pan fydd pobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol am y tro cyntaf;
- Yn ystod y broses asesu;
- Wrth ddatblygu'r cynllun gofal a chymorth a sut y caiff ei gynllunio; a hefyd
- Yn y ffordd mae'r gweithlu yn ymateb i bobl yn dilyn cychwyn y pecyn gofal a chymorth.

Sgyrsiau ac ymgysylltu â dinasyddion

4.3 Rhoddwyd enghreifftiau o ddehongliadau cadarnhaol o'r effaith sy'n deillio o ffocws y Ddeddf ar 'lais a rheolaeth' – lle mae eiriolaeth yn gweithio'n dda i bobl yn flaenllaw yn y rhain, ynghyd â ffocws gwell ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Roedd mwy o ymwybyddiaeth hefyd o sut y gellid ymgymryd yn well â chefnogi llais a rheolaeth, a'i droi'n ymarfer.

4.4 Bu cryn drafod ynghylch gweithredu'r gofynion eiriolaeth o dan y Ddeddf. Roedd yna farn bod y mesurau hyn yn gweithio'n dda, gyda mwy o ddefnydd o wasanaethau eirioli gan grŵp ehangach nag o'r blaen, mwy o ymwybyddiaeth o'r angen am eiriolaeth a'i phwysigrwydd, a chynnwys eiriolaeth mewn ymarfer gofal cymdeithasol fel bod 'cynnig rhagweithiol' o eiriolaeth annibynnol yn cael ei wneud i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

¹⁷ Ceir llawer mwy o fanylion yn Llewellyn M., Verity F., Wallace S. a Tetlow S. (2021) *Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 2/2021. Ar gael ar: [process evaluation](#).

Taliadau uniongyrchol

- 4.5 O dan y Ddeddf, mae taliadau uniongyrchol yn fecanwaith allweddol y gall defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ei ddefnyddio i gael gwell ymdeimlad o lais a rheolaeth. Os ydyn nhw'n gymwys, gellir rhoi swm o arian i ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu ofalwyr i'w ddefnyddio i gyflawni eu canlyniadau llesiant. O fewn paramedrau penodol, gellir gwario'r arian hwn fel y maen nhw'n ei ddewis, fel arfer trwy gyflogi Cynorthwydd Personol (CP/PA).
- 4.6 Er bod taliadau uniongyrchol wedi'u hamlygu gan y gweithlu fel cysyniad 'da iawn' o ran helpu i sicrhau llais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, nodwyd nifer o heriau. Mae'r rhain yn cynnwys, yn benodol, y baich cyfrifoldeb ar unigolion fel cyflogwyr, materion recriwtio cynorthwywyr personol, a'r cwestiwn i ba raddau y mae unigolyn mewn gwirionedd yn rheoli pwy y mae'n ei gyflogi.¹⁸

Rheoli risg a sgysiau anodd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- 4.7 Trafododd y cyfranogwyr yr ymagwedd at risg fel rhan o'u myfyrdodau ar y prosesau asesu, gan fod y Ddeddf wedi annog dull llai gwrth-risg o fynd ati wrth asesu a darparu gofal a chymorth. Roedd y newid hwn yn y dull o fynd ati at risg yn canolbwyntio ar densiynau ynghylch sut y gall llais a rheolaeth weithredu mewn gwrthdaro â gweithdrefnau, cynlluniau a pheccynnau gweithredol. Yn llawer rhy aml, mae cyfyngiadau'r system yn gweithio yn erbyn yr hyn sy'n bwysig i bobl, gan arwain at wrthdaro â theuluoedd, trwy gyfres o sgysiau heriol lle mae angen rheoli disgwyliadau.
- 4.8 Arweiniodd hyn at fyfyrion ar y diffyg cysylltiad canfyddedig rhwng rhesymeg deddfwriaethol a realiti gweithredol, yn enwedig wrth wynebu tensiynau rhwng yr hyn sy'n bwysig i bobl a hyblygrwydd a dehongliad lleol yn erbyn rheolaeth ganolog a pha wasanaethau sydd ar gael ac y gellir eu darparu.

¹⁸ Ceir mwy o fanylion am y materion hyn ym Mhennod 5 isod.

5. Canfyddiadau – ymchwil gyda'r Cynorthwywyr Personol

- 5.1 Mae Taliadau Uniongyrchol (TU/DP) wedi bod yn un o'r mecanweithiau allweddol sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddefnyddio mwy o lais a rheolaeth dros eu gofal a chymorth ers blynyddoedd lawer. Gall y rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol gyflogi Cynorthwywyr Personol (PA's) i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau a'u nodau llesiant personol. Fel y cyfryw, mae cyflogi Cynorthwywyr Personol yn un o'r ffyrdd o sicrhau llais a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 5.2 Comisiynodd Llywodraeth Cymru y grŵp o ymchwilwyr yn WIHSC sy'n arwain ar IMPACT i gynnal astudiaeth gysylltiedig ar Gynorthwywyr Personol mewn partneriaeth â Data Cymru.¹⁹
- 5.3 Mewn nifer o wahanol ffyrdd, nododd yr astudiaeth fod lle i wella yn y ffordd y mae cynorthwywyr personol yn cael eu cyflogi, a sut mae'r rhai sy'n cael Cynorthwywyr Personol yn cyflawni eu rôl fel cyflogwr. Wrth ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd heb fod yn gweithio cystal o ran cyflogi cynorthwywyr personol, nodwyd nifer o faterion o'r dadansoddiad.²⁰
- 5.4 Mae'r hyn sy'n dilyn yn grynoded o ganfyddiadau'r astudiaeth sy'n berthnasol i'r egwyddor o lais a rheolaeth fel maen nhw'n cael eu hwyluso a'u galluogi (neu beidio).
- 5.5 Gan fod y materion hyn yn ymwneud â mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau llais a rheolaeth – sef y berthynas rhwng derbynnydd Taliad Unigol a'r Cynorthwydd Personol y mae'n ei gyflogi – maen nhw'n cael eu crynhoi yn y paragraffau sy'n dilyn.
- 5.6 Mae tâl yn fater allweddol yn y data a gasglwyd yn yr astudiaeth CP/PA. Mae tystiolaeth o'r gwaith hwnnw'n dangos nad ydy cyfraddau cyflog yn gymesur â lefel y sgiliau a'r ystod o dasgau y mae cynorthwywyr personol yn eu cyflawni, o ystyried her eu rôl. Disgrifiodd y Cynorthwywyr Personol eu bod yn cael eu tanbrizio o ganlyniad i'w cyfradd cyflog isel.
- 5.7 Dywedodd y Cynorthwywyr Personol fod y telerau a'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn eu contractau – h.y. hawliau'r cyflogai – naill ai'n absennol neu'n aneglur. Canfu'r astudiaeth fod Cynorthwywyr Personol yn nodi nad ydyn nhw bob amser yn cael tâl am yr holl waith y maen nhw'n ei wneud, sy'n gysylltiedig â diffyg eglurder yn eu sefyllfa gytundebol.
- 5.8 Datgelodd arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth fod 65% o gyflogwyr yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd neu'n anodd iawn recriwtio Cynorthwywyr Personol. Mae gan y materion a ddisgrifir uchod oblygiadau ar gyfer recriwtio a chadw yn ogystal â sicrhau parhad gofal pan fo angen Cynorthwywyr Personol newydd i

¹⁹ Wallace et al (2022), op. cit.

gyflenwi yn ystod absenoldebau. Nododd yr arolwg berthynas glir rhwng y pecyn tâl ar gyfer Cynorthwywyr Personol a'r gallu i'w recriwtio a'u cadw, gydag 85% o gyflogwyr yn dweud bod telerau ac amodau yn eithaf pwysig neu'n bwysig iawn yn hyn o beth.

- 5.9 Mae'n bosibl iawn mai cyflogi CP drwy'r system TU ydy'r profiad cyntaf y mae llawer o bobl yn ei gael o fod yn gyflogwr. Mae'r cymhlethdodau dan sylw yn cael eu cydnabod gan Gynorthwywyr Personol sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cyflogwyr a'u harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl.
- 5.10 Mae cael Cynorthwydd Personol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gofal sy'n seiliedig ar berthynas a all arwain at lefelau uwch o gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae cyflogwyr yn rhoi gwerth hanfodol ar barhad gofal a datblygu perthnasoedd gofalu agos gyda'u Cynorthwywyr Personol. Mae ffurfio perthynas waith agos gyda'u cyflogwyr a'u teuluoedd yn nodwedd ganolog o rôl y Cynorthwydd Personol. Mae nodweddion sy'n gweithio'n dda i Gynorthwywyr Personol wedi'u cysylltu â'r perthnasoedd cynhenid agos a grëwyd gyda'u cyflogwyr. Gall y berthynas waith agos hon fod yn fecanwaith allweddol sy'n galluogi llais a rheolaeth.
- 5.11 I grynhoi, mae llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr wedi'u cyfyngu gan y prinder o Gynorthwywyr Personol sydd ar gael. Mae yna heriau hefyd i'r rhai sy'n newydd i'r broses o gyflogi CP, a all lesteirio'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol, ac felly gyfyngu ar y cyfleoedd i fynegi llais a rheolaeth. Fodd bynnag, gall y berthynas agos rhwng Cynorthwywyr Personol a chyflogwyr fod yn fodd o ddarparu llais a rheolaeth.

6. Crynodeb

- 6.1 Nod llais a rheolaeth ydy rhoi'r unigolyn, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal i'w galluogi a/neu eu grymuso i lunio'r canlyniadau sy'n caniatáu iddyn nhw gyflawni ymdeimlad o lesiant ac ansawdd bywyd da o ran yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.
- 6.2 Mae'r dystiolaeth yn y penodau uchod yn rhoi darlun cymysg o'r graddau y mae'r egwyddor wedi'i gwreiddio fel rhan o'r broses o weithredu'r Ddeddf.
- 6.3 O ystyried y dystiolaeth a dynnwyd o bob agwedd o'r astudiaeth hon rydyn ni felly yn argymhell y dylid ystyried a mynd i'r afael â'r pedwar maes canlynol er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr effaith y gall egwyddor llais a rheolaeth ei gael:

1. **Hyrwyddo ethos llais a rheolaeth.** Dydy llenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd, y Ddeddf, ei Chodau Ymarfer cysylltiol na chwaith bapurau technegol ddim yn cynnig diffiniadau o gysyniadau 'llais' a 'rheolaeth'. Mae hyn wedi arwain at wahanol syniadau, fersiynau ac ystyr 'llais a rheolaeth' a ddefnyddir mewn llenyddiaeth gyhoeddedig a bywyd o ddydd i ddydd yn ôl tystiolaeth cyfranogwyr yn eu hastudiaeth ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn y gwerthusiad. Gellir defnyddio dimensiynau llais a rheolaeth – gofal wedi'i ganoli ar y person, grymuso pobl a gwneud penderfyniadau ar y cyd – i helpu i bersonoli a theilwra'r system i'r unigolyn. Mae cael diffiniad penodol yn llai pwysig na phrofiad pobl ac, fel y cyfryw, rydyn ni'n argymhell yn gryf i bobl sydd â chyfrifoldeb i hyrwyddo'r egwyddor hon i achub ar bob cyfle i wneud hynny.
2. **Gwireddu llais a rheolaeth ar gyfer pawb.** Yn unol â'r adolygiad llenyddiaeth, mae ein canfyddiadau ansoddol o grwpiau lleiafrifoedd penodol y boblogaeth (megis rhai â nam ar y synhwyrau a rhai o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd) yn datgelu bod cyflawni llais a phenderfynu lefel y rheolaeth yn dibynnu'n rhannol ar hunaniaeth cymdeithasol (boed yn oedran, ethnigrwydd, nam), cymwyseddau proffesiynol a sefydliadol a modelau arferion. Mae grwpiau lleiafrifoedd o blith y boblogaeth hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol sef cael pobl i'w deall ac ystyried eu syniadau gydag anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd yn dylanwadu a ydyn nhw'n ymwneud mewn unrhyw ddull â systemau gofal cymdeithasol ffurfiol, a'r modd y mae'r rhai hynny sy'n penderfynu gwneud - neu heb unrhyw ddewis arall ond ymwneud – wedyn yn ymdopi. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi mewn eiriolaeth, yn cynnwys

eiriolaeth cymheiriaid, ynghyd â chydweithio gydag arbenigedd sefydliadau yn y gymuned a buddsoddi ynddyn nhw.

3. **Cydnabod pwysigrwydd mapio llais a rheolaeth.** Mae gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr – i raddau y gweithlu – fapio eu taith drwy'r system, tra bod pethau yn newid o'u cwmpas. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod pobl am gael dweud eu dweud a rheoli pethau wrth iddyn nhw symud o'r cysylltiad cyntaf â'r system drwy'r cyfnod asesu a chynllunio cymorth i ymglymiad parhaus gyda'r gweithlu. Mae pob cam a chyfnod yn cynnig cyfleoedd i dreialu a gwella modelau, arferion a phrosesau sy'n meithrin llais a rheolaeth mewn dulliau y gellir eu mapio, eu monitro a'u hystyried er mwyn gwella'r profiad a'r canlyniad ar gyfer pawb.
4. **Gwella mecanweithiau presennol – a datblygu mecanweithiau ychwanegol – er mwyn cyflawni llais a rheolaeth.** Mae angen gwaith ychwanegol i feithrin sgwrsiau seiliedig ar gryfder am yr asesiad a'r ddarpariaeth o ofal a chymorth. Byddai datblygiad o'r fath yn well o'i osod yng nghyd-destun ymglymiad ehangach y cyhoedd gyda'r nod o ddisgrifio'r newid y mae'r Ddeddf yn ceisio'i sicrhau yn yr ethos o ran cyd-lunio systemau a phrosesau cymorth. Wrth i un dull – ac i lawer efallai yr unig ddull – i feithrin rheolaeth, mae taliadau uniongyrchol yn parhau'n bwysig ac yn angenrheidiol, ond mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad y rhain ydy'r ateb i bawb. Mae angen arweinyddiaeth barhaus, cymorth cyson a hyrwyddo taliadau uniongyrchol, ynghyd â datblygu modelau arloesol ac amgen o gymorth wedi'i ganoli ar y person a chymorth dan gyfarwyddyd dinasyddion, efallai ar ffurf cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

- 6.4 Fel yr esboniwyd yn ofalus gennym yn ein [Fframwaith ar gyfer Newid](#), mae ceisio gwerthuso effaith y Ddeddf yn golygu adolygu'r gyfres o bolisiau a deddfwriaeth a roddwyd ar waith dros y degawd diwethaf. Gyda'n gwaith ar Llais a Rheolaeth – yn debyg iawn i'r egwyddorion eraill a archwiliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn – mae cynnydd wedi'i wneud, ond mae mwy i'w wneud o hyd.

Rhestr Cyfeiriadau

Brogan, P. Hasson, F., & McIlfratrick, S. (2018). Shared decision-making at the end of life: a focus group study exploring the perceptions & experiences of multi-disciplinary healthcare professionals working in the home setting. *Palliative Medicine*, 32(1), 123-132.

Callaghan, L. & Towers, A.M. (2014). Feeling in control: comparing older people's experiences in different care settings. *Ageing & Society*, 34, 1427-1451.

Darby, J., Williamson, T., Logan, P. & Gladman, J. (2017). Comprehensive geriatric assessment on an acute medical unit: a qualitative study of older people's & informal carer's perspectives of the care & treatment received. *Clinical Rehabilitation*, 31(1), 126-134.

Yr Adran Iechyd / Department of Health (2015). *Voice, choice & control: How registered nurses, care & support staff in the care sector can support people to achieve these aims*.

Dunér, A., Bjalkebring, P. & Johansson, B. (2019). Autonomy, choice & control for older users of home care services: current developments in Swedish eldercare. *Journal of Social Service Research*, 45(1), 129-141.

Eades, S. (2018). Impact evaluation of an independent mental health advocacy (IMHA) service in a high secure hospital: a co-produced survey measuring self-reported changes to patient self-determination. *Mental Health & Social Inclusion*, 22(1), 53-60.

Ewing, G., Austin, L. & Grande, G. (2016). The role of the Carer Support Needs Assessment Tool in palliative home care: a qualitative study of practitioners' perspectives of its impact & mechanisms of action. *Palliative Medicine*, 30(4), 392-400.

Galiatsatos, P., Gurley, A. & Hale, W.D. (2017). Policy & advocacy for informal caregivers: how state policy influenced a community initiative. *Journal of Public Health Policy*, 38(4), 503-508.

GlennDinning, C., Mitchell, W. & Brooks, J. (2015). Ambiguity in practice? Carers' roles in personalised social care in England. *Health & Social Care in the Community*, 23(1), 23-32.

Hamilton, L.G., Mesa, S., Hayward, E., Price, R. & Bright, G. (2017). "There's a lot of places I'd like to go & things I'd like to do": the daily living experiences of adults with mild to moderate intellectual disabilities during a time of personalised social care reform in the United Kingdom. *Disability & Society*, 32(3), 287-307.

Hanga, K., DiNitto, D.M., Wilken, J.P. & Leppi, L. (2017). A person-centred approach in initial rehabilitation needs assessment: experiences of persons with disabilities. *ALTER, European Journal of Disability Research*, 11, 251-266.

Gridley, K., Brooks, J. & Glenndinning, C. (2014). Good practice in social care: the views of people with severe & complex needs & those who support them. *Health & Social Care in the Community*, 22(6), 588-597.

Havlicek, J., Curry, A. & Villalpando, F. (2018). Youth participation in foster youth advisory boards: perspectives of facilitators. *Children & Youth Services Review*, 84, 255-270.

Keyes, S.E., Webber, S.H. & Beveridge, K. (2015). Empowerment through care: Using dialogue between the social model of disability & an ethic of care to redraw boundaries of independence & partnership between disabled people & services. *ALTER, European Journal of Disability Research*, 9, 236-248.

Larkin, M. (2015). Developing the knowledge base about carers & personalisation: contributions made by an exploration of carers' perspectives on personal budgets & the carer-service user relationship. *Health & Social Care in the Community*, 23(1), 33-41.

Llewellyn M, Verity F, Wallace S, Calder G, Garthwaite T, Lyttleton-Smith J, and Read S (2023). O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynnol Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 36/2023. Ar gael yn: [Adroddiad Terfynnol](#).

Llewellyn M. (2022). *Evaluation of the Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: expectations & experiences of Black, Asian & Minority Ethnic service users & carers*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 32/2022. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services & Well-being \(Wales\) Act 2014: expectations & experiences of Black, Asian & Minority Ethnic service users & carers](#).

Llewellyn M., Saltus R., Blackmore H., Tetlow S., Williams Z. & Wallace S. (2020a). 'Voice & Control' in Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (eds). (2020) *Evaluation of the Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services & Well-being \(Wales\) Act 2014: literature review](#).

Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (gol/eds). (2020b). *Evaluation of the Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: Literature Review*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 60/2020. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014: literature review](#).

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. & Tetlow S. (2021). *Evaluation of the Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: Process Evaluation*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 2/2021. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services & Well-being \(Wales\) Act 2014: process evaluation](#).

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. & Tetlow S. (2022). *Expectations & Experiences: Service User & Carer perspectives on the Social Services & Well-being (Wales) Act*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 16/2022. Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services & Well-being \(Wales\) Act 2014: expectations & experiences](#).

McCarter, S.P., Tariman, J.D., Spawn, N., Mehmeti, E., Bishop-Royse, J., Garcia, I., Hartle, L. & Szubski, K. (2016). Barriers & promoters to participation in the era of shared treatment decision-making. *Western Journal of Nursing Research*, 38(10), 1282-1297.

McNeilly, P., Macdonald, G. & Kelly, B. (2018). The participation of parents of disabled children & young people in health & social care decisions. *Child: Care, Health & Development*, 43, 839-846.

Morris, J.N., Declercq, A., Hirdes, J.P., Finne-Soveri, H., Fries, B.E., James, M.L., Geffen, L., Kehyayan, V., Saks, K., Szczerbinska, K. & Topinkova, E. (2017). Hearing the voice of the resident in long-term care facilities – an internationally based approach to assessing quality of life. *Journal of the American Medical Directors Association*, 19(3), 207-215.

Patton, M. Q. (2015). *Qualitative Evaluation & Research Methods*. Thousand Oaks, CA: Sage.

Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. Efrog Newydd: Guilford Press

Rand, S. & Malley, J. (2014). Carers' quality of life & experiences of adult social care support in England. *Health & Social Care in the Community*, 22(4), 375-385.

Reindl, R.S., Waltz, M. & Schippers, A. (2016). Personalisation, self-advocacy & inclusion: an evaluation of parent-initiated supported living schemes for people with intellectual disabilities & developmental disabilities in the Netherlands. *Journal of Intellectual Disabilities*, 20(2), 121-136.

Seddon, D. & Robinson, C. (2015). Carer assessment: continuing tensions & dilemmas for social care practice. *Health & Social Care in the Community*, 23(1), 14-22.

Singleton, B.E. & Fry, G. (2015). Citizen carer: carer's allowance & conceptualisations of UK citizenship. *Journal of Social Policy*, 44(3), 549-566.

Skills for Care (2018). *Using conversations to assess & plan people's care & support: the principles of conversational assessment*. Skills for Care.

Tideman, M. & Svensson, O. (2015). Young people with intellectual disability – the role of self-advocacy in a transformed Swedish welfare system. *International Journal of Qualitative Studies on Health & Well-being*, 10(1), 1-8.

Tucker, S., Hargreaves, C., Roberts, A., Anderson, I., Shaw, J. & Challis, D. (2018). Social care in prison: emerging practice arrangements consequent upon the introduction of the 2014 Care Act. *British Journal of Social Work*, 48, 1627-1644.

Vamstad, J. (2016). Exit, voice & indifference – older people as consumers of Swedish home care services. *Ageing & Society*, 36, 2163-2181.

Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J. & Llewellyn, M. (2019). *Evaluation of the Social Services & Well-being (Wales) Act 2014: Framework for Change Report*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 38/2019 Ar gael ar: [Evaluation of the Social Services & Well-being \(Wales\) Act 2014: framework for change](#).

Wallace, S., Llewellyn, M., Garthwaite, T, Randall, H. & Sullivan. S. (2022). *Research on the Employment of Personal Assistants in Social Care*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: [Research on the employment of personal assistants in social care](#).

Washburn, A.M. & Grossman, M. (2017). Being with a person in our care: person centred social work practice that is authentically person-centred. *Journal of Gerontological Social Work*, 60(5), 408-423.

Watts, J.H. & Cavaye, J. (2018). Being a former carer: impacts on health & wellbeing. *Illness, Crisis & Loss*, 26(4), 330-345.